RHIFYN
ISSUE
23
12.04.20

Llais Llantrisant

DIOLCH
THANK YOU

Hoffem ddiolch yn fawr iawn i staff Llantrisant a staff ysgolion eraill y clwstwr a'r ardal sydd wedi gweithio naill ai yn ein hysgol ni neu yn Hwb Llanhari ers i ni orfod cau'r ysgol ar Fawrth 20fed.

Wythnos ryfedd iawn oedd o'n blaenau ddydd Llun Mawrth 23ain gyda staff Llantrisant oedd yn gallu gweithio ar rota i ddarparu gofal plant i grwpiau bychain o blant am yr wythnos. Gwahanol iawn oedd y naws yn yr ysgol yr wythnos honno. Ar gyfer yr ail wthnos, lluniwyd rota o staff i weithio yn Ysgol Llanhari yn ystod yr wythnos yn dechrau Mawrth 23ain cyn i staff Llantrisant dorri am wyliau'r Pasg.

Bydd staff Llantrisant yn gweithio yn Hwb Llanhari o ddydd Llun, Ebrill 20fed gyda staff yr ysgolion eraill yn cael eu hail wythnos o wyliau'r Pasg. Cymhleth iawn!

We should like to thank all staff from our school and other cluster and local schools who have worked either in our school or in Llanhari Hub since the enforced closure on March 20th.

We had a very strange week indeed from Monday March 23rd with those staff from Llantrisant who were able to work providing childcare for key workers' children for the first week. The atmosphere in school that week was very different indeed!

For the second week, a rota of available staff was drawn up to work at Llanhari Hub the week beginning March 23rd before our staff broke up for the Easter holidays.

Llantrisant staff will rejoin the Llanhari Hub rota from Monday April 20th which will allow the staff from the other partner schools to have their well deserved second week of Easter holidays. Very complicated!





DYDDIADAU ALLWEDDOL
KEY DATES

20.04.20 – Addysgu a dysgu o bell yn ail-ddechrau
Distance teaching and learning recommences

20.04.20 – Staff Llantrisant ar rota Hwb Llanhari
Llantrisant staff rejoin the Llanhari Hub rota

Braf iawn fyddai gallu ychwanegu at y rhestr hon!
It would be great to be in the position to add to this list!

PASG HAPUS
HAPPY EASTER

Yn ystod y cyfnod rhyfedd hwn o ansicrwydd, hoffai pawb yn yr ysgol ddymuno Pasg Hapus, iach a diogel i bawb.

During this very strange period of uncertainty, everyone in school would like to wish you all a healthy, safe and Happy Easter.



HWYL FAWR
FAREWELL

Mawrth 31ain oedd diwrnod olaf Mrs Jane Edwards yn yr ysgol. Dechreuodd Mrs Edwards weithio gyda ni fis Medi 1993 fel Goruchwylydd yr Awr Ginio. Hoffem ddiolch yn fawr iawn i Mrs Edwards am ei holl waith dros y blynyddoedd. Hefyd, wedi cyfnod hir fel Gofalwr yr ysgol ers Ionawr 1993 dyma ni'n ffarwelio â Mr Lyndon Price wrth iddo ymddeol ar ôl 27 o flynyddoedd yn yr ysgol. Anfonwn ein dymuniadau gorau i Mrs Edwards a Mr Price ac edrychwn ymlaen at eu croesawu nôl i'r ysgol, pan fydd yn bosibl, gan nad ydym wedi cael cyfle i ddweud diolch a hwyl fawr wrthynt! Yn ogystal, diolch a hwyl fawr i Mr Marczak a fu'n gweithio fel Cynorthwyydd Addysgu yng Nghyfnod Allweddol 2 y tymor diwethaf. Rydym yn siwr o'i weld yn yr ysgol eto yn y dyfodol!

March 31st was Mrs Jane Edwards' last day with us at school. Mrs Edwards has worked with us since September 1993 as a Lunchtime Supervisor. We should like to thank Mrs Edwards for all her work over the years. Also, following a lengthy period as School Caretaker which began in January 1993 we have said farewell to Mr Lyndon Price as he retires following 27 years of service. We send our best wishes to Mrs Edwards and Mr Price and we look forward to seeing them again when we shall be able to invite them back to school to say thank you and farewell in person. Also, many thanks and farewell to Mr Marczak who has been working with Key Stage 2 children this last term as a Teaching Assistant. We are sure to see Mr Marczak again!

